Digimap for Schools

Ysgrifennu'r Ddaear: Llythrennedd gan ddefnyddio mapiau

Alan Parkinson

Adnodd Addysgu Daearyddiaeth

Cyfnod Allweddol 3

Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn http://digimapforschools.edina.ac.uk

Ordnance Survey

EDINA

Digimap for Schools

http://digimapforschools.edina.ac.uk

Adnoddau Daearyddiaeth *Digimap for Schools*

Canllaw ar gyfer athrawon yw'r adnoddau hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r dosbarth cyfan neu fyfyrwyr unigol yn uniongyrchol fel y bo'n briodol. Gallwch addasu'r llu o syniadau sydd ym mhob gweithgaredd fel eu bod yn gweddu eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys dalenni gwaith i'w rhoi i'r disgyblion yn uniongyrchol.

Teitl

Lefel	**Cyd-destun**	**Lleoliad**
Cyfnod Allweddol 3	Gellir defnyddio mapiau i adrodd straeon. Yn llythrennol, mae daearyddiaeth yn Saesneg yn golygu 'ysgrifennu'r ddaear', a gall ffurfio sylfaen gwaith llythrennedd da	Unrhyw le ym Mhrydain Fawr

Gwybodaeth a Sgiliau	Lefelau closio, anodi map, llythrennedd
Cysylltiadau Cwricwlwm (Lloegr)	Sgiliau map, llythrennedd, tirweddau
Cysylltiadau Cwricwlwm (Cymru)	Defnyddio mapiau i ddehongli a chyflwyno gwybodaeth leoliadol, cyfleu syniadau a gwybodaeth gan ddefnyddio mapiau a delweddau gweledol.
Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban	Canlyniadau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lleoedd a'r Amgylchedd 1.07a, 1.14a

Gweithgaredd

Yn llythrennol, mae daearyddiaeth yn Saesneg yn golygu, 'ysgrifennu'r ddaear'. Mae'r gweithgaredd hwn yn ymwneud â chreu stori gan ddefnyddio map yr Arolwg Ordnans o *Digimap for Schools* fel y lleoliad neu'r ysbrydoliaeth. Mae angen 'dod â'r map yn fyw'.

Cyflwyniad

Ystyriwch ble y gellid lleoli eich straeon. Gellir gwneud hyn ag arweiniad athro, neu gellir gofyn i'r myfyrwyr ddewis lle e.e. 'rhywle â chastell', 'rhywle ger y môr' neu 'rhywle ag enw sy'n swnio'n rhyfeddol' (byddai'r nodwedd chwilio'n ddefnyddiol i wneud hyn)

Gall fod yn ddefnyddiol darparu thema ar gyfer y stori hefyd. Gallai enghreifftiau gynnwys:

- Teithiau
- Hoffwn petaech chi yma
- Ble fydda' i'n byw?
- Beth fydda' i'n ei wneud fel bywoliaeth?

Mae rhai lleoliadau ym Mhrydain Fawr yn gysylltiedig â straeon penodol. Cyflwynwch i'ch dosbarth y

faith bod nifer o awduron enwog wedi defnyddio nodweddion daearyddol fel ysbrydoliaeth. (Gweler y dolennu ar y we i gael enghreifftiau).

Prif weithgaredd

Mae'r gweithgaredd hwn yn gweithio'n dda pan roddir anogwr ffisegol i helpu i ganolbwyntio meddwl. Dyma dri opsiwn y gellid eu defnyddio:

1. Ciwbiau stori. Bydd llawer o athrawon eisoes yn gyfarwydd â'r rhain ac efallai byddai'n werth gwirio i weld a oes eisoes gan eich ysgol set. Y rhai mwyaf adnabyddus yw *Rory's Story Cubes*, ac mae'r set o'r enw '*Voyages*' yn cynnwys llawer i anogwyr gweledol a ellid eu defnyddio ar y cyd â map o *Digimap for Schools*.

2. Gweithgaredd 6 x 6 Mae hwn yn defnyddio syniad tebyg, ond mae angen gosod allweddair sy'n gysylltiedig â'r ardal ym mhob un o'r 36 blwch. Rholiwch ddau ddis chwe ochr i ddod o hyd i gyfesurynnau sgwâr penodol. Defnyddir y gair yn y sgwâr hwnnw yn y stori. Dangosir enghraifft ar gyfer ardal *Castleton* yn yr *High Peak* yn Swydd Derbyn yn Atodiad A. Darperir grid 6 x 6 gwag yn Atodiad B.

(O syniad gwreiddiol gan Steve Bowker.)

3. Ciwbiau Mapiau

Gallwch greu DIS MAP i helpu i roi'r stori ar waith. Rhowch '*Dice net*' yn *Google* i ddod o hyd i dempledi.
Dylai disgyblion ddewis ardal o fap a'i argraffu maint A4. Gallan nhw bastio ardaloedd o fapiau ar bob ochr o'r dis. Mae pob rhan o'r stori'n cael eu hannog wrth rolio dis.

Gan ddibynnu ar yr ardal a ddewisir, gall fod yn fwy diddorol dewis ardaloedd gwahanol o'r map ar gyfer pob ochr o'r dis, yn hytrach na thorri'r dis allan o un ardal o'r map.

Mynd gam ymhellach

Fel arall, gallech chi ysgrifennu barddoniaeth. Mae ffurfiau penillion syml fel haicw yn gweithio'n dda ar gyfer y rheiny sy'n ei chael hi'n anodd ysgrifennu llawer. Byddai barddoniaeth ar ffurf *calligram* yn gweithio'n dda yma hefyd.

Calligram yw diagram sy'n cynnwys geiriau, ac sydd wedi cael ei ysgrifennu mewn modd sy'n cyfleu'r gair hwnnw e.e. Glan y môr wedi ei ysgrifennu mewn llythrennau tonnog, lliw glas ar y brig a melyn ar y gwaelod:

Gallai hyn gynnwys ysgrifennu cerdd neu stori am afon a ysgrifennir ar ffurf cwrs afon. Defnyddiwch eich dychymyg gyda siapiau a geiriau.

Digimap for Schools

http://digimapforschools.edina.ac.uk

Dolenni ar y we

Enghraifft o awduron clasurol sydd wedi cael eu hysbrydoli gan y dirwedd: http://www.bl.uk/onlinegallery/onlineex/literland

Rhestr o lyfrau sy'n seiliedig ar ardaloedd yn Llundain: http://www.independent.co.uk/arts-entertainment/books/features/tales-of-the-city-literary-map-of-london-810394.html

Rory's Story Cubes: http://www.thecreativityhub.com/

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol *Creative Commons Attribution*

Digimap for Schools

http://digimapforschools.edina.ac.uk

Atodiad A

Grid 6 x 6 enghreifftiol sy'n addas i'w ddefnyddio gydag ardal Castleton yn High Peak yn Swydd Derby

Lorries stuck	Pollution	Traffic Jams	Car Parks full	Raining heavily	Gore Tex jacket
Satellite navigation	Breakdowns	Noise	Children	Tourists	Shopping
Road cracking up	Steep slopes	Mam Tor	Breakdown vehicle	Sunny	Cow
Sight seeing	Road signs	Very busy in the post office	Blue John	Tractor going slowly	Sheep on the Road
Landslide	Detour Signs	Postcards	Litter	Ice cream van	Farmer
Graffiti	Fish and Chips	Caverns	Making lots of money		Winnat's Pass

Digimap for Schools

http://digimapforschools.edina.ac.uk

Chwiliwch am ‘*Castleton*’ yn *Digimap for Schools* a’i ehangu i faint sgrin lawn gan ddefnyddio



Digimap for Schools

http://digimapforschools.edina.ac.uk

Atodiad B

6 x 6